Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Llun, 3 Awst 2009**

Teitl: Buddsoddiad gwerth £2 filiwn ar gyfer newidiadau sgiliau a chyflogaeth

Dyfarnwyd dros £2 filiwn i brifysgolion yng Nghymru er mwyn cefnogi gweithwyr, cwmnïau a graddedigion yn ystod y dirywiad economaidd.

Rhoddwyd caniatâd i fynd ymlaen â phedwar prosiect gwerth £2.15 filiwn, o dan y Fenter Cymorth Economaidd, a fydd yn gweld prifysgolion Cymru'n cynorthwyo unigolion a busnesau i oroesi'r dirywiad economaidd.

Bydd y fenter yn galluogi sefydliadau addysg uwch Cymru i ddiogelu neu wella ymhellach ddisgwyliadau cyflogaeth gweithwyr yn economi Cymru, y rhai a gollodd eu swyddi yn ddiweddar a'r graddedigion sy'n dechrau gweithio.

Bydd hefyd yn eu galluogi i gefnogi cwmnïau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, mewn sectorau a dargedwyd, drwy ddarparu mynediad cydlynol at wybodaeth ac arbenigedd mewn addysg uwch, er mwyn gwella perfformiad busnesau ac uwchsgilio eu gweithlu.

Bydd y pedwar prosiect, sy'n rhedeg am 18 mis o 1 Awst 2009, yn gweld prifysgolion a'u partneriaid, yn cynnwys swyddi, gyrfaoedd, busnes, sefydliadau twristiaeth a sgiliau, undebau llafur a cholegau addysg bellach yn:

- cynnig cyngor ac arweiniad ar-lein ynglŷn â dewisiadau dysgu'r Brifysgol Agored i unigolion yng Nghymru, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus ar-lein yn rhad ac am ddim;

- cynnig hyfforddiant galwedigaethol i uwchsgilio staff mewn busnesau bach yn y diwydiant twristiaeth yn ne orllewin Cymru;
- darparu hyfforddiant penodol ar gyfer unigolion sy'n gweithio ar eu liwt eu hun, rhai sy'n ddi-waith neu mewn perygl o golli eu swyddi, mewn diwydiannau cyfrwng creadigol yng Nghymru; ac
- ymestyn argaeledd cyngor gyrfaol i raddedigion; a
- helpu hyd at 1,000 o raddedigion di-waith i gael mynediad at hyfforddiant gan brifysgolion ledled Cymru.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Bydd yr arian yn galluogi prifysgolion a cholegau Cymru i ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd wrth iddyn nhw godi ac i dargedu meysydd lle mae angen cymorth fwyaf.

"Rydym bob amser yn pwysleisio bod toreth o wybodaeth ac arbenigedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru, ac mae'r arafu economaidd presennol yn golygu bod angen i Gymru fanteisio ar yr adnodd gwerthfawr hwn fwy nag erioed."

Meddai'r Gweinidog Addysg, Jane Hutt: "Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth y gallwn i helpu busnesau ac unigolion gael yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt fel ein bod yn barod am y gwella economaidd pan ddaw.

"Mae'r cyllid hwn yn fuddsoddiad gwych yng ngweithlu Cymru ac, ymysg pethau eraill, rwy'n siŵr y bydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl sydd wedi graddio'n ddiweddar pan fyddant yn chwilio am swyddi."

Diwedd

Nodiadau i'r Golygyddion

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Menter Cymorth Economaidd

Ariennir y Fenter Cymorth Economaidd drwy Gronfa Datblygu Strategol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Bydd y Gweinidog Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd y cyfle i ymweld â stondinau rhai o'r sefydliadau sydd ynghlwm wrth y prosiectau hyn yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meirion a'r Cyffiniau, ger Y Bala, Gwynedd ar ddydd Mawrth, 4 Awst.

Amcanion y Fenter Cymorth Economaidd yw:

- darparu buddsoddiad untro ar gyfer gweithgaredd ychwanegol er mwyn galluogi sefydliadau i wella ac ychwanegu gwerth at eu gwaith presennol gydag unigolion a gweithwyr.
- cydlynu gweithgareddau rhwng sefydliadau addysg uwch (SAUau), a rhwng SAUau a phartneriaid eraill fel bo'n briodol, yn enwedig drwy adeiladu ar gynlluniau, rhaglenni, partneriaethau rhanbarthol a mentrau eraill sydd eisoes yn bodoli.

Cymeradwywyd pedwar prosiect dan y fenter hon, gyda gwerth cyfansymiol o dros £2.1 filiwn:

1. £100k ar gyfer cynorthwyo prosiect dan arweiniad y Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer darparu: dimensiwn Cymreig i wefan bresennol y Brifysgol Agored ynghylch Dirwasgiad, er mwyn darparu gwybodaeth unigol sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, cyngor ac arweiniad ynglŷn â dewisiadau dysgu ar gyfer unigolion yng Nghymru; ynghyd â 300 o benodau ar-lein rhad ac am ddim ar gyfer unigolion, yn eu plith y rhai hynny sy'n wynebu diswyddiadau, sy'n cynnwys DPP penodol ar gyfer anghenion y dirwasgiad yng Nghymru.

Partneriaid eraill y prosiect yw: Canolfan Byd Gwaith, Coleg Castell-nedd Port Talbot, Dysgu Gydol Oes yn y DU, TUC Cymru, Gyrfa Cymru a Chynghrair Cynghorau Sgiliau Sector Cymru.

2. £309k ar gyfer cynorthwyo prosiect i ddarparu rhaglen hyfforddiant galwedigaethol, cyfrannu at uwchsgilio staff busnesau bach yn ne orllewin Cymru, gyda ffocws penodol ar y diwydiant Twristiaeth a Hamdden. Y partneriaid yn y prosiect hwn yw: Coleg Prifysgol Y Drindod, Caerfyrddin; Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan; Prifysgol Fetropolitan Abertawe; Coleg Penfro; Coleg Sir Gâr; Coleg Abertawe; Coleg Gorseinon; Coleg Castell-nedd Port Talbot; gyda chefnogaeth: Hyfforddiant Twristiaeth Cymru/Gallu; Siambr Fasnach Canolbarth a Gorllewin Cymru; Cymdeithasau Twristiaeth Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro; a Busnes yn y Gymuned.

3. Gan adeiladu ar yr Academi Sgrin Cymru *Skillset* bresennol, rhoddwyd gwerth £440k o gymorth ar gyfer prosiect a fydd yn mynd i'r afael ag anghenion sgiliau unigolion a chwmnïau yn niwydiannau'r Cyfryngau Creadigol yng Nghymru, drwy ddarparu hyfforddiant penodol ar gyfer unigolion sy'n gweithio ar eu liwt eu hun, yn ddi-waith neu mewn perygl o golli eu swyddi. Y partneriaid yn y prosiect yw: Prifysgol Morgannwg; Prifysgol Cymru, Casnewydd; Prifysgol Aberystwyth; Prifysgol Caerdydd; Prifysgol Fetropolitan Abertawe; a *Skillset,* sef y cyngor sgiliau sector ar gyfer y diwydiant cyfryngau creadigol.

4. Gwerth £1,295 miliwn o gymorth ar gyfer prosiect dan arweiniad Prifysgol Caerdydd ac sydd yn cynnwys Prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Morgannwg, Glyndŵr ac Abertawe, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth cyngor gyrfaol i gynnwys graddedigion, gyda 3,000 o raddedigion i'w cynorthwyo dros ystod oes y prosiect. Yn ogystal, bydd y prosiect yn cynorthwyo hyd at 1,000 o raddedigion di-waith i gael mynediad at hyfforddiant gan y prifysgolion drwy gynllun Tocyn Dysgu Unigol.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chymhwyster y Cynllun (sydd bellach ar gau ar gyfer cynigion), ewch i gylchlythyr W09/06HE: Economic Support Initiative, 4 Mawrth 2009 ar dudalennau Cyhoeddiadau/Cylchlythyrau www.hefcw.ac.uk.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant cychwynnol athrawon** ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.